

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Cyllid

Cyflwyniad

1. Cyflwynwyd Bil Cyllid 2020 (y Bil) i Dŷ'r Cyffredin ar 17 Mawrth 2020.
2. Cwblhaodd y Bil ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 27 Ebrill 2020 ac fe'i hanfonwyd at un o'r Pwyllgorau Biliau Cyhoeddus. Nid yw dyddiad eisteddiad cyntaf y Pwyllgor wedi cael ei gadarnhau eto, ond mae disgwyl i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad erbyn 25 Mehefin 2020.
3. Cafodd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ei osod ar 13 Mai 2020 gan Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (y Gweinidog). Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi crynodeb o ddarpariaethau allweddol y Bil ym mharagraff 5 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.
4. Mae Rheol Sefydlog 29 yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fydd Bil y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru:
 - (i) At unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (ac eithrio darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro, atodol neu ddarpariaethau arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd); neu
 - (ii) Sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
5. Ar ôl i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei osod, cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad ysgrifenedig ar ddyfodol prisio carbon yn y DU, sy'n nodi:

“Mae ETS y DU yn bolisi allweddol i ategu'r gwaith o leihau allyriadau o'n safleoedd ni sydd â'r allyriadau uchaf mewn modd cost-effeithiol.



Mae tua 50 y cant o'r allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru yn dod o'r sectorau pŵer, diwydiant a hedfan - sectorau sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun hwn. Heb os mae angen sicrydd ar ein busnesau ni ac, ar yr adeg anodd hon, byddwn yn helpu diwydiant i adfer a bod yn gynaliadwy yn economaidd ac yn amgylcheddol yn y dyfodol."¹

6. Trafododd y Pwyllgor Cyllid y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ei gyfarfod ar 15 Mehefin 2020.

Y darpariaethau y gwneir cais am gydsyniad ar eu cyfer

7. Mae paragraff 6 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn esbonio bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau a gynhwysir yn is-adrannau (1) i (4) o gymal 93 o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd), sy'n ymwneud â chodi tâl am ddyrannu lwfansau o dan gynlluniau masnachu lleihau allyriadau.

8. Ar hyn o bryd mae'r DU gyfan yn cymryd rhan yn System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, bydd angen polisi newydd yn y DU ar ddiwedd y cyfnod pontio cyn i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd.

9. Mae cymal 93(1) yn caniatáu i Lywodraeth y DU wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer dyrannu lwfansau allyriadau yn gyfnewid am daliad o dan unrhyw System Masnachu Allyriadau yn y DU yn y dyfodol.

10. Mae Cymal 93(2) yn rhoi enghreifftiau o faterion y gall rheoliadau o'r fath ddarparu ar eu cyfer. Mae cymal 93(3) a (4) yn caniatáu i Lywodraeth y DU greu cynlluniau sy'n nodi manylion ymddygiad a thelerau dyraniadau yn gyfnewid am daliad, gan nodi'n benodol pwy all gymryd rhan, y lwfansau y gellir eu dyrannu a phryd a lle mae'r dyraniadau i ddigwydd.

11. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, i'r graddau y maent yn ymwneud â diogelu'r amgylchedd a newid hinsawdd yng Nghymru.

12. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad. Mae'r tabl ar dudalen 201 o Nodiadau Esboniadol y Bil yn darparu nad yw Llywodraeth y DU o'r farn y byddai darpariaeth gyfatebol o fewn cymhwysedd y Senedd, er bod cymal 93 yn ymestyn i Gymru ac yn berthnasol iddi.

¹ <https://gov.wales/written-statement-government-response-future-uk-carbon-pricing>

Cymhwysedd Deddfwriaethol

13. O dan y model cadw pwerau a nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, dim ond os yw'r profion cymhwysedd a nodir yn adran 108A yn cael eu bodloni y bydd darpariaeth o fewn cymhwysedd. Un o'r profion yw na ddylai darpariaeth ymwneud ag unrhyw un o'r materion a gedwir yn ôl a restrir yn Atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru.

Casgliad

14. Mae paragraff 13 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn esbonio bod Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau mewn Bil yn y DU gan y bydd angen fframwaith ledled y DU i'r broses ocsiwn ar gyfer cynlluniau masnachu allyriadau, a bydd angen iddo ddod i rym ar yr un pryd ledled y DU. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw'r amserlen yn caniatáu cyflwyno Bil penodol i Gymru.

15. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ac nid yw'n dymuno codi unrhyw faterion i gyflwyno adroddiad arnynt. Felly, mae'r Pwyllgor yn fodlon.